# Nodiadau Eglurhaol

# Y Dreth Gyngor2025/2026

**Os yw eich bil yn nodi bod gostyngiad neu ryddhadardrethi wedi'i ddyfarnu, rhaid i chi ddweud wrth y Cyngor os ydych yn credu ei fod yn anghywir a hysbysu'r Cyngor o unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar eich hawl i neu swm y gostyngiad neu ryddhad. Rhaid gwneud hyn drwy ysgrifennu at y Cyngor o fewn 21 diwrnod o ddysgu gwybodaeth neu'r newid mewn amgylchiadau. Os byddwch yn methu gwneud hynny, mae'n bosibl y byddwch yn agored i gosb o £50.**

## Beth yw'r Dreth Gyngor?

Mae'n dreth eiddo lleol a godir gan gynghorau, i'w ddefnyddio ochr yn ochr â chyllid llywodraeth ganolog, er mwyn talu am wasanaethau maent yn eu darparu.

## Pwy fydd yn penderfynu faint mae'n rhaid i mi ei

Mae'r dreth Gyngor yn seiliedig ar werth eiddo. Rhoddir pob eiddo i mewn i system fandio a chodir tâl yn unol â hynny ar ôl i ffactorau penodol eraill gael eu hystyried. Os ydych yn credu bod eich tŷ mewn band treth gyngor anghywir, gallwch apelio.

Valuation Office Agency

## Apeliadau Bandiau Prisio

Mae'r seiliau ar gyfer apelio am fandio yn gyfyngedig i'r achosion canlynol:

1. Os byddwch yn credu y dylid newid y band oherwydd y bu cynnydd sylweddol neu ostyngiad sylweddol (esbonnir hyn isod) yng ngwerth yr annedd;
2. Pan fyddwch yn dechrau neu'n rhoi'r gorau i ddefnyddio rhan o'ch annedd i gynnal busnes, neu'r cydbwysedd rhwng newidiadau defnydd domestig a busnes;
3. Pan fydd y Swyddog Rhestru wedi newid rhestr heb i gynnig gael ei wneud gan drethdalwr;
4. Pan fyddwch yn mynd yn drethdalwr mewn perthynas ag annedd am y tro cyntaf.
5. Yn gyffredinol gallai apeliadau bandio fod wedi cael eu gwneud gan unrhyw berson â diddordeb hyd at 30 Medi 2006 ar gyfer rhestr brisio 2005 ac hyd at 31 Rhagfyr 2005 ar gyfer rhestr brisio 1993.



Mae'n bosibl y bydd cynnydd sylweddol o ran gwerth yn deillio o waith adeiladu, peirianneg neu waith arall a wneir ar yr annedd. Yn yr achosion hyn, ni fydd ailbrisio'n digwydd tan ar ôl gwerthu - felly y person fel arfer sy'n apelio fyddai'r perchennog newydd neu breswylydd.

Mae'n bosibl y bydd gostyngiad sylweddol o ran gwerth yn deillio o ddymchwel unrhyw ran o'r annedd, unrhyw newid o ran cyflwr ffisegol yr ardal leol neu addasiad i sicrhau bod yr annedd yn addas i'w defnyddio gan rywun sydd ag anabledd corfforol. Yn yr achosion hyn dylai ailbrisio ddigwydd cyn gynted â phosibl.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau'r apêl (gan gynnwys rôl tribiwnlysoedd prisio) gan Adran y Dreth Gyngor neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar **03000 505505** neu [www.voa.gov.uk](http://www.voa.gov.uk).

## Pwysy'n gyfrifol amdalu'rDrethGyngormewn

Fel arfer mae'r person sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor yn breswylydd sy'n byw yn yr annedd.

- Preswylydd â buddiantrhydd-ddaliadol
- Preswylydd â buddiant lesddaliadol
- Preswylydd a thenant statudol
- Preswylydd sydd â thrwydded gytundebol i feddiannu
- Preswylydd
- Perchennog nad yw'n breswylydd

Mewn rhai achosion, mae'r perchennog (nid y preswylwyr) yn atebol am y dreth gyngor gan gynnwys:

- Cartrefi preswyl, cartrefi nyrsio a hostelau
- Anheddau lle y mae cymuned crefyddol yn byw
- Tai Amlfeddiannaeth
- Cyflogai preswyl mewn gwasanaeth domestig
- Annedd a feddiannir gan weinidog crefyddol
- Anheddau a feddiannir gan geiswyr lloches

## Beth i'w wneud os bydd eich amgylchiadau'n newid

Os bydd eich amgylchiadau'n newid mae'n rhaid i chi ddweud wrthym pan fydd y newidiadau'n digwydd. Mae'n drosedd peidio â rhoi gwybod i ni am newid yn eich amgylchiadau sy'n effeithio ar eich cymorth a gallai arwain at ddirwy. Dyma enghreifftiau o newidiadau mewn amgylchiadau:

- byddwch yn symud tŷ
- bydd rhywun yn symud imewn i'ch cartref neu allan ohono

## A oes gennych hawl i eithriad neu ostyngiad ar eich treth gyngor?

### Gostyngiadau

Mae bil treth gyngor llawn yn seiliedig ar o leiaf ddau oedolyn yn byw mewn cartref. Byddai gennych hawl i 25% oddi ar eich bil os byddwch yn byw ar eich pen eich hun. At ddibenion gostyngiad nid yw'r canlyniad yn cyfrif tuag at nifer yr oedolion sy'n byw mewn annedd:

- Myfyrwyr llawn-amser, nyrsys sy'n fyfyrwyr, prentisiaid a hyfforddeion Hyfforddiant Ieuenctid
- Cleifion sy'n byw yn yr ysbyty
- Pobl sy'n cael gofal mewn cartrefi gofal
- Pobl sydd â namau meddwl difrifol
- Pobl sy'n aros mewn hostelau penodol neu lochesau gyda'r nos
- Pobl ifanc 18 neu 19 oed sydd yn yr ysgol neu newydd ei gadael (fodd bynnag, pan fydd person yn cyrraedd 18 oed mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor fel y gellir rhoi'r gostyngiad cywir)
- Gweithwyr gofal sy'n gweithio am dâl isel, fel arfer i elusennau
- Pobl sy'n gofalu am rywun ag anabledd nad yw'n ŵr, gwraig, partner neu'n blentyn o dan 18 oed
- Aelodau lluoedd sy'n ymweld â sefydliadau rhyngwladol
- penodol
- Aelodau cymunedau crefyddol (mynachod a lleianod)
- Pobl yn y carchar (ac eithrio'r rheini sydd yn y carchar am beidio â thalu'r Dreth Gyngor neu ddirwy)
- Pobl sy'n Gadael Gofal

**Os credwch y gallai fod gennych hawl i ostyngiad, dylech gysylltu â ni.**

## Eiddo eithriedig

**Mae nifer o gategorïau gwahanol o bobl ac eiddo wedi'u heithrio rhag y dreth gyngor gan gynnwys eiddo gwag sydd;**

- heb eu dodrefnu (wedi'u heithrio am hyd at chwe mis)
- yn eiddo i elusen (wedi'u heithrio am hyd at chwe mis)
- yn cael addasiadau strwythurol neu sydd angen gwaith atgyweirio mawr (wedi'u heithrio am hyd at 12 mis - ar yr amod bod yr eiddo heb ei ddodrefnu)
- wedi'u gadael yn wag gan fod rhywun yn y carchar, neu sydd wedi symud i dderbyn gofal mewn ysbyty, cartref neu rywle arall
- yn cael eu gadael yn wag gan fod rhywun wedi symud i gynnig gofal personol i berson arall
- yn wag oherwydd bod myfyrwyr wedi gadael
- yn aros am brofiant neu lythyrau gweinyddu ei roi (ac ar gyfer hyd at chwe mis wedyn) ar yr amod nad oes unrhyw person cymwys arall
- wedi'u hadfeddiannu
- yn gyfrifoldeb i ymddiriedolwr methdalwr
- yn wag achos bod eu meddiannu wedi'i wahardd gan y gyfraith
- yn aros i weinidog crefydd feddiannu'r eiddo
- Mae barics y lluoedd a llety i bobl briod hefyd wedi'u heithrio; bydd eu meddianwyr yn cyfrannu at gost y gwasanaethau lleol trwy drefniant arbennig.

**Mae rhai eiddo sydd wedi'u meddiannu hefyd wedi'u heithrio rhag talu'r dreth gyngor gan gynnwys:**

- Neuadd breswyl i fyfyrwyr
- Annedd a feddiannir yn gyfan gwbl gan fyfyrwyr
- Llety i'r lluoedd arfog
- Llety i luoedd sy'n ymweld
- Annedd a feddiannir yn gyfan gwbl o dan 18 oed
- Annedd a feddiannir gan berson sydd â nam meddwl difrifol
- Pobl sydd ag imiwnedd diplomyddol
- Annedd a feddiannir gan berthynas ddibynnol (e.e.rhandy)
- Anheddau a feddiannir yn gyfan gwbl gan y rhai sy'n gadael gofal
- Anheddau a feddiannir yn gyfan gwbl gan bersonau perthnasol (myfyrwyr, y rhai sydd â nam meddyliol difrifol a'r rhai sy'n gadael gofal)

## Eiddo gwag heb ei ddodrefnu

Os yw eich eiddo'n wag a heb ei ddodrefnu bydd wedi'i eithrio am chwe mis o'r dyddiad pan aeth yn wag a heb ei ddodrefnu am y tro cyntaf. Pan fydd y chwe mis wedi dod i ben nid oes unrhyw ddisgownt pellach, a bydd rhaid talu Treth Gyngor o 100%.

O 1 Ebrill 2023, os yw'ch eiddo wedi bod yn wag a heb ei ddodrefnu am gyfnod o 12 mis neu fwy (Hirdymor Gwag), bydd premiwm Treth Gyngor o 100% yn gymwys, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ar fil eich Treth Gyngor.

O 1 Ebrill 2024, bydd premiwm y Dreth Gyngor o 150% yn gymwys ar gyfer eiddo sydd wedi aros yn wag a heb eu dodrefnu am gyfnod o 24 mis neu hyd at (ond heb gynnwys) 36 mis. Bydd hyn yn cael ei

adlewyrchu ar eich bil Treth Gyngor.
O 1 Ebrill 2025, bydd premiwm o 200% yn gymwys ar gyfer eiddo sydd wedi aros yn wag a heb eu dodrefnu am gyfnod o 36 mis neu fwy. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ar eich bil Treth Gyngor.

Mae pedwar eithriad i'r premiwm Treth Gyngor ar gyfer eiddo gwag tymor hir. Mae'r rhain yn:

| | |
|---|---|
| Dosbarth 1. | Anheddau sy'n cael eu marchnata ar werth neu le mae cynnig i brynu'r annedd wedi ei dderbyn; mae gan yr eithriad terfyn amser o flwyddyn. |
| Dosbarth 2. | Anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gosod neu le mae cynnig i'w rentu wedi cael ei dderbyn; mae gan yr eithriad terfyn amser o flwyddyn. |
| Dosbarth 3. | Rhandai sy'n ffurfio rhan o'r brif annedd, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd. |
| Dosbarth 4. | Anheddau a fyddai'n brif breswylfa i berson pe na bai'n byw mewn llety'r lluoedd arfog. |

Os ydych yn credu bod eich eiddo yn bodloni un o'r meini prawf uchod, gallwch wneud cais am eithriad trwy gwblhau Ymholiad Treth Gyngor trwy'r ddolen ganlynol:

https://forms.valeofglamorgan.gov.uk/cy/CouncilTaxEnquiry

Bydd angen i chi uwchlwytho tystiolaeth ddogfennol gyda'r ymholiad, i ddangos bod eich eiddo'n bodloni'r meini prawf.

## Eiddo meddiannu o bryd i'w gilydd

Mae eiddo sy'n cael eu meddiannu o bryd i'w gilydd (y cyfeirir atynt yn aml fel ail gartrefi) yn eiddo wedi'u dodrefnu nad ydynt yn cael eu defnyddio'n barhaus fel unig neu brif breswylfa. O 1 Ebrill 2024, bydd premiwm Treth Gyngor 100% yn berthnasol ar gyfer eiddo sy'n dod o fewn y categori hwn. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ar eich bil Treth Gyngor.

Yn ogystal â'r pedwar eithriad a nodir uchod mae yna 3 eithriad arall sy'n berthnasol yn benodol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'r rhain yn:

| | |
|---|---|
| Dosbarth 5. | Lleoedd carafanau ac angorfeydd cychod wedi'u meddiannu |
| Dosbarth 6. | Cartrefi tymhorol neu osod gwyliau lle gwaherddir meddiannaeth drwy gydol y flwyddyn neu barhaol |
| Dosbarth 7. | Anheddau sy'n gysylltiedig â swydd |

Os ydych yn credu bod eich eiddo yn bodloni un o'r meini prawf uchod, gallwch wneud cais am eithriad trwy gwblhau Ymholiad Treth Gyngor trwy'r ddolen ganlynol:

https://forms.valeofglamorgan.gov.uk/cy/CouncilTaxEnquiry

Bydd angen i chi uwchlwytho tystiolaeth ddogfennol gyda'r ymholiad, i ddangos bod eich eiddo'n bodloni'r meini prawf.

# Pobl aganableddau



Os bydd arnoch chi neu rywun sy'n byw gyda chi, angen ystafell neu ystafell ymolchi neu gegin ychwanegol, neu le ychwanegol yn eich eiddo i fodloni anghenion arbennig sy'n deillio o anabledd, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i fil Treth Gyngor gostyngedig. Mae'n bosibl y caiff y bil ei ostwng i un eiddo yn y band yn union o dan y band a ddangosir yn y rhestr brisio. Os bydd eiddo yn y band isaf (A) mae'n bosibl y bydd gostyngiad yn berthnasol. Mae'r gostyngiadau hyn yn sicrhau nad yw pobl anabl yn talu mwy o dreth gan fod angen gofod ychwanegol oherwydd anabledd. Gellir lawr lwytho ffurflenni cais o'r wefan neu fel arall **ffonio 01446 729556.**

# Gostyngiad y Dreth Gyngor

Os yw eich aelwyd ar incwm isel,gallech dderbyn cymorth tuag at rywfaint o'ch bil Treth Gyngor neu'r cyfan trwy'r Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor. Os ydych chi'n derbyn y budd-daliadau isod, gallwch wneud cais i gael eich hawl wedi'i asesu a'i chymhwyso i'ch bil treth gyngor os byddwch yn gymwys:

- Lwfans Ceisio Gwaith
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth
- Credyd Pensiwn
- Cymhorthdal Incwm



Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn gallu cael cymorth hyd yn oed os nad ydych yn gymwys i gael y budd-daliadau uchod. Er mwyn cael gwybod os ydych â hawl i ostyngiad a faint fyddai hynny, bydd eich awdurdod lleol yn edrych ar eich incwm wythnosol yn ogystal ag a oes gennych unrhyw gyfalaf. Mae faint o ostyngiad mae gennych hawl iddo hefyd yn dibynnu ar a ydych o oedran gweithio neu'n bensiynwr.

Os byddwch yn derbyn Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd dylech gysylltu â ni i sicrhau ein bod wedi cael gwybod i'ch asesu ar gyfer gostyngiad yn eich treth gyngor.

Os hoffech chi fwy o wybodaeth cysylltwch **01446 709244** os ydych yn ansicr neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth.

# Pheidio â Chodi Tâl am y Dreth Gyngor (Adran 13a)

Dan Adran 13a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 mae gan y Cyngor y pŵer i leihau atebolrwydd ar gyfer y Dreth Gyngor mewn perthynas ag achosion unigol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Caledi Ariannol Eithriadol
- Argyfwng (e.e.Tân neu Lifogydd)
- Amgylchiadau Eithriadol Eraill

Bydd y Cyngor a'r ymgeisydd yn ystyried opsiynau talu eraill, megis trefniadau tâl gohiriedig a gostyngiadau mewn gwariant nad yw'n hanfodol i gyflawni ei atebolrwydd dyledus, cyn bod unrhyw gais yn cael ei ystyried.

Mae Ffurflenni Cais ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg neu fel arall **ffoniwch 01446 729556.**

# Apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor

Cewch apelio os ydych o'r farn nad ydych yn atebol i dalu'r Dreth Gyngor, er enghraifft, am nad chi yw'r preswylydd na'r perchennog, neu oherwydd bod eich eiddo wedi'i eithrio, neu fod Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud camgymeriad wrth gyfrif eich bil. Os ydych yn dymuno apelio ar y sail hon yn gyntaf, rhaid i chi hysbysu Adran y Dreth Gyngor yn ysgrifenedig er mwyn cael cyfle i ailystyried yrachos.

NID YW GWNEUD APÊL YN CANIATÁU I CHI ATAL TALIADAU TRETH SY'N DDYLEDUS YN Y CYFAMSER. OS YW EICH APÊL YN LLWYDDIANNUS, BYDD GENNYCH HAWL I GAEL AD-DALIAD O UNRHYW DRETH A ORDALWYD.

# Talu eich bil

Mae eich Bil treth gyngor blynyddol yn dweud wrthych:

- ✓ Faint sy'n rhaid i chi ei dalu am y flwyddyn
- ✓ Sut mae'r swm hwnnw wedi cael ei gyfrifo
- ✓ Y dyddiadau pan fo taliadau'n ddyledus

Fel arfer, caiff cost y dreth gyngor ei rhannu'n 10 taliad misol. Os ydych yn cael unrhyw drafferth talu, dylech gysylltu â'r Adran Treth Gyngor cyn gynted â phosibl. Efallai y gallan nhw helpu

Mae sawl ffordd y gallwch dalu eich treth cyngor:

Cwblhewch gyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol ar-lein yn www.bromorgannwg.gov.uk/CouncilTax a dewiswch 'Cofrestru ar gyfer debyd uniongyrchol'

Gellir gwneud taliadau drwy fynd a'ch bil treth gyngor neu'ch cerdyn talu presennol i'r lleoliadau canlynol:

- Svwyddfa'r Post
- Siopau gyda'r arwydd PayPoint
- Swyddfeydd, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU

Llinell dalu awtomataidd 24 awr – **01446 736815**
NEU yn ystod oriau swyddfa – **01446 729556**

Ar-lein yn www.bromorgannwg.gov.uk a dewiswch 'Talu'

Dylid gwneud sieciau'n daladwy i *'Cyngor Bro Morgannwg'* a'u hanfon at y Pennaeth Cyllid, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,Y Barri, CF63 4RU
**Lloyds Bank plc, 140B Heol Holltwn, Y Barri**
**Cod Didoli – 309052**
**Rhif Cyfrif – 00006327**

**Sicrhewch eich bod yn dyfynnu eich rhif cyfrif treth gyngor.**

## Os na fyddwch yntalu

Os byddwch yn colli taliad misol neu os nad ydych yn ymateb i fil, bydd yr Adran y Dreth Gyngor yn anfon hysbysiad atgoffa atoch a fydd yn rhoi saith diwrnod i chi dalu. Os na fyddwch yn talu o fewn saith diwrnod neu'n gwneud ymdrech i gysylltu â'r cyngor, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth gyngor y flwyddyn gyfan yn lle hynny.

Os byddwch yn colli taliad treth gyngor pellach, anfonir ail hysbysiad atgoffa atoch. Dim ond dau hysbysiad atgoffa y byddwch yn eu cael mewn blwyddyn ariannol (1 Ebrill - 31 Mawrth). Os na fyddwch yn talu treth gyngor y flwyddyn gyfan o fewn saith diwrnod o orfod gwneud hynny, gall y cyngor gymryd camau cyfreithiol.

## Galwadau cyfreithiol am daliadau

Gall yr Adran Treth Gyngor ofyn i Ynad am orchymyn dyled. Bydd costau'r cyngor ar gyfer trefnu hyn yn cael eu hychwanegu at yr arian sy'n ddyledus gennych. Os byddwch yn derbyn hysbysiad o orchymyn dyled, dylech gysylltu â'r Adran Ardrethi Annomestig ar unwaith.

## Os ydych yn parhau i beidio â thalu

Ar ôl i orchymyn dyled gael ei ganiatáu gan y Llys Ynadon, gall yr Adran Treth Gyngor

- gyfarwyddo'ch cyflogwr i dalu eich treth gyngor yn uniongyrchol o'ch cyflog
- Wneud cais i gymryd arian o fudd-daliadau penodol efallai y byddwch yn derbyn
- gyfarwyddo Asiant Gorfodi i gymryd eich eiddo i dalu am werth eich dyledion treth gyngor (ychwanegir costau'r Asiant Gorfodi at y cyfanswm sy'n ddyledus gennych i'r cyngor)

## Twyll treth gyngor

Mae'n drosedd ceisio osgoi talu'r dreth gyngor drwy roi gwybodaeth ffug i'r Cyngor, neu drwy beidio â dweud wrthynt am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar faint y dreth gyngor sy'n ddyledus.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Darparu gwybodaeth anwir neu anghywir i hawlio disgownt neu eithriad
- Methu â rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eich treth gyngor
- Hawlio disgownt person sengl pan fo oedolion eraill yn byw yn yr eiddo
- Peidio â dweud wrth y Cyngor pryd y dylid canslo disgownt neu ostyngiad arall

## Newid i e-filio di-bapur

Mae e-filio yn ffordd arall o dderbyn eich bil treth gyngor. Yn hytrach na derbyn biliau papur byddwch yn gallu gweld eich biliau treth gyngor ar-lein.

- ✓ **Mae'n gyflymach, gan y byddwch yn derbyn e-bost yn dweud wrthych bod eich bil yn barod i'w weld**
- ✓ **Gall pob person sydd ar y bil gael ei gopi electronig ei hun**
- ✓ **Gallwch weld eich cyfrif ar-lein yn ddiogel ar unrhyw adeg**
- ✓ **Mae e-filio yn lleihau costau argraffu a phostio**

I gofrestru, ewch i **www.bromorgannwg.gov.uk,** ac ewch i Dreth Gyngor, wedyn E-Ddinesydd. Cwblhewch y ffurflen gofrestru ar-lein a, phan ddaw i law, bydd e-bost gweithredu'n cael ei anfon ymlaen i'r cyfeiriad e-bost a roddwyd.

## Cysylltwch â ni:


**01446 729556**

**https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/council_tax/Council-Tax.aspx**

**Adran Refeniw**
**Adran Gyllid**
**BLWCH SP 49**
**Y BARRI**
**CF63 4YN**